# Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

## Cael canllawiau ar eich dewisiadau cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY)

Mae penderfynu sut i ddefnyddio eich cynllun CGY yn un o'r penderfyniadau ariannol mwyaf pwysig y byddwch yn debygol o wneud, felly argymhellwn eich bod yn cael canllawiau gan Pension Wise er mwyn eich helpu i benderfynu pa ddewis sydd orau i chi.

Mae Pension Wise yn wasanaeth gan Helpwr Arian. Mae'n wasanaeth diduedd am ddim, a noddir gan y Llywodraeth er mwyn eich helpu i ddeall eich dewisiadau CGY.

Gan fod hyn yn benderfyniad pwysig iawn, ni allwn symud ymlaen gyda'ch cais tan i chi ddweud wrthym ni eich bod wedi derbyn canllawiau gan Pension Wise (mewn perthynas â'ch cais i gymryd eich CGY yn y CPLlL) neu nad ydych yn dymuno cymryd canllawiau Pension Wise. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol.

Os hoffech i ni archebu apwyntiad i chi gyda Pension Wise, cysylltwch â ni ar 01352 702 875. Bydd rhaid i chi ddweud wrthym ni pryd a sut yr hoffech i'r apwyntiad ddigwydd.

Os oes well gennych wneud apwyntiad eich hun, gallwch wneud hyn drwy ffonio 0800 100 166 neu ar-lein ar **https://www.moneyhelper.org.uk/cy/pensions-and-retirement/pension-wise/book-a-free-pension-wise-appointment**

Unwaith i chi gael canllawiau byddwch angen rhoi gwybod i ni fel y gallwn symud ymlaen gyda'ch cais. Gallwch wneud hyn drwy gwblhau'r datganiad ar waelod y ffurflen hon.

Os ydych yn penderfynu nad ydych yn dymuno cael canllawiau, gallwch dynnu allan o'r gofyniad drwy gwblhau'r datganiad ar waelod y ffurflen hon. Gallwch hefyd dynnu allan drwy ffonio 01352 702 875.

### Eich apwyntiad gyda Pension Wise

Bydd Pension Wise ond yn trafod y dewisiadau safonol sydd ar gael i aelodau cyfraniad diffiniedig gyda chi. Mae eich CGY yn bensiwn cyfraniad diffiniedig sy'n ynghlwm eich pensiwn CPLlL. Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun â buddion diffiniedig.

Mae llythyr dewisiadau CGY yn nodi'r ffyrdd y gallwch gymryd eich CGY yn y CPLlL. Efallai na fydd Pension Wise yn trafod yr holl opsiynau hyn gyda chi.

Mae'r dewisiadau safonol sydd ar gael i aelodau cyfraniad diffiniedig y bydd Pension Wise yn trafod gyda chi wedi'u rhestru isod. Bydd eich llythyr dewis CGY yn nodi os yw'r dewis ar gael i chi yn y CPLlL:

- Ymddeol yn hwyrach neu oedi cymryd eich CGY
- Derbyn incwm ymddeoliad gwarantedig (blwydd-dal)
- Cymryd eich pensiwn fel un neu fwy o gyfandaliadau trethadwy
- Cael incwm ymddeoliad hyblyg (tynnu'r pensiwn)

**Nid yw'r ddau ddewis olaf ar gael yn y CPLlL ar gyfer unrhyw aelod.**

Fodd bynnag, gall fod yn bosibl derbyn eich CGY cyfan fel cyfandaliad heb dreth. Gwiriwch eich llythyr dewis CGY i weld os allwch wneud hyn a pha ddewisiadau eraill sydd heb eu rhestru uchod sy'n gymwys i chi.

Os nad yw dewis ar gael i chi yn y CPLlL, gall fod ar gael os ydych yn trosglwyddo eich CGY i gynllun pensiwn arall. Bydd eich llythyr dewis CGY yn cadarnhau os allwch drosglwyddo eich CGY i gynllun pensiwn arall.

**Cofiwch:** Rhaid i chi un ai dderbyn canllawiau gan Pension Wise neu dynnu allan o dderbyn canllawiau cyn y gallwn symud ymlaen gyda'ch cais i gymryd eich CGY.

## Cael cymorth gyda'ch holl gwestiynau pensiwn

Gallwch gael canllawiau ar eich CGY a phensiwn CPLlL gan linell gymorth canllawiau pensiynau Helpwr Arian. Mae hwn yn wasanaeth pensiwn ac arian diduedd am ddim a noddir gan y Llywodraeth. Mae'n wasanaeth ar wahân i Pension Wise.

Ni allwch wneud apwyntiad gyda chanllawiau pensiynau Helpwr Arian ond gallwch gysylltu â nhw ar-lein neu drwy ffonio 0800 011 3797. Ewch i wefan Helpwr Arian i gael rhagor o wybodaeth:
**https://www.moneyhelper.org.uk/cy**

Gallwch gael eich atgyfeirio i ganllawiau pensiwn Helpwr Arian gan eich apwyntiad Pension Wise os ydych yn gofyn i'r ymgynghorydd Pension Wise am eich pensiwn CPLlL.

Argymhellwn hefyd eich bod yn ystyried cael cyngor ariannol annibynnol. Mae cymorth i ddod o hyd i ymgynghorydd ariannol annibynnol ar gael ar:

**https://www.moneyhelper.org.uk/cy/getting-help-and-advice/financial-advisers/choosing-a-financial-adviser**

# Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

## Datganiad canllawiau Pension Wise

| **Datganiad:** | **Ydw** | **Na** |
|---|---|---|
| Rwy'n cadarnhau fy mod wedi <u>derbyn canllawiau</u> gan Pension Wise mewn perthynas â fy nghais i gymryd fy CGY yn y CPLlL | ☐ | ☐ |
| Rwy'n cadarnhau fy mod yn dymuno <u>tynnu allan o dderbyn canllawiau</u> gan Pension Wise | ☐ | ☐ |

**Eich Manylion:**

| | |
|---|---|
| **Enw Llawn:** | |
| **Rhif Yswiriant Gwladol:** | |
| **Eich Llofnod:** | |
| **Dyddiad:** | |

**Dylid dychwelyd y ffurflen hon wedi ei chwblhau at Gronfa Bensiynau Clwyd drwy un o'r dulliau canlynol:**

Uwchlwytho'r ffurflenni drwy 'Uwchlwytho Dogfen' ar Hunanwasanaeth Aelodau

**pensiynau@siryfflint.gov.uk**

Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF